



Gwarantau Rheolaeth

Sut mae gofyn am warant reolaeth?

Beth ddylwn ei wneud

Darllenwch y daflen EX321 – **Mae gennyf ddyfarniad ond nid yw'r diffynnydd wedi talu - Beth ddylwn ei wneud?**, sydd ar gael ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk. Bydd hyn o gymorth ichi benderfynu os mai gofyn am warant yw'r peth gorau ichi ei wneud ai peidio.

Ni fydd gwarant reolaeth yn eich helpu oni bai fod gan y diffynnydd (dyledwr):

- ddigon o nwyddau yn y cyfeiriad a roddwyd gennych y gellid eu gwerthu mewn arwerthiant i godi arian i chi; neu
- yr arian yr ydych yn ei hawlio ar y warant i gyd (i atal gorfod gwerthu nwyddau)

Cyn gall y llys godi gwarant, mae'n rhaid i'r diffynnydd (dyledwr):

- fod wedi methu talu'r swm y gorchynnwyd iddo ef neu hi ei dalu; neu
- fod wedi peidio â thalu o leiaf un o'i daliadau/ thaliadau.

Mae hyn yn cael ei alw'n fod 'mewn ôl-ddyled'

Am faint alla i godi gwarant?

Llys Sirol

Gallwch ofyn i asiant gorfodi'r Llys Sirol geisio adennill unrhyw swm hyd at £5,000. (Dim ond yn y Llys Sirol y gellir gorfodi cytundeb a reolir dan Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974, ac nid yw'r cyfyngiad uwch o £5,000 yn berthnasol.) Ni allwch chi ofyn i'r Llys Sirol godi gwarant am fwy na hyn, ond gallwch drosglwyddo eich dyfarniad i'r Uchel Lys. Wedyn gallwch ofyn i Swyddog Gorfodi orfodi'r dyfarniad.

Os ydy'r swm sy'n ddyledus i chi yn £600 neu lai, fedrwch chi ddim gofyn i'r Swyddog Gorfodi geisio cael yr arian yn ôl i chi.

Ond os ydy'r swm sy'n ddyledus i chi rhwng £600 a £5,000 (oni bai eich bod yn gorfodi cytundeb wedi ei reoli gan y Ddeddf Credyd Defnyddwyr) mae gennych ddewis naill ai i godi gwarant mewn Llys Sirol neu yn yr Uchel Lys. Fodd bynnag, all staff y llys ddim dweud wrthyhych pa un o'r ddau ddewis sydd fwyaf tebygol o gael yr arian i chi. Chi sy'n gorfod gwneud y penderfyniad hwnnw. Mae'n bosib y gallwch gael cyngor am ddim o ganolfan gyfraith.

Gall Canolfan Cyngor ar Bopeth neu ganolfan cyngori defnyddwyr eich helpu i benderfynu hefyd.

Llys Teulu

Gallwch ofyn i'r Asiant Gorfodi'r Llys Teulu i geisio cael unrhyw swm o arian yn ôl. Os yw'r dyfarniad yr ydych yn ceisio ei orfodi yn y Llys Teulu, dylech godi'r gwarant yn y Llys Teulu.

Yr Uchel Lys

Os penderfynwch godi gwrit yn yr Uchel Lys, bydd angen 'tystysgrif dyfarniad' arnoch. Mae hon yn cynnwys manylion eich achos ac mae'n nodi faint sy'n ddyledus i chi. Er mwyn gwneud cais amdani, bydd arnoch angen ffurflen N293A 'tystysgrif dyfarniad gyfun er mwyn gorfodi'r dyfarniad drwy writ reolaeth (mae gwrit reolaeth yn gyfystyr â gwarant reolaeth yn yr Uchel Lys). Gallwch gael copi o ffurflen N293A ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk. mae'n rhaid i chi lenwi rhan 1 a'i hanfon i'r llys lle gwnaethpwyd y dyfarniad neu i'r Ganolfan Fusnes y Llys Sirol. Os na fyddwch yn ei llenwi'n llawn, efallai bydd yn rhaid i'r llys ei dychwelyd atoch. Rhaid i chi nodi:

- dyddiad y dyfarniad a'r swm y gwnaethpwyd y gorchymyn ar ei gyfer, gan gynnwys unrhyw gostau ychwanegol a ganiatawyd gan y llys ers y dyfarniad; a
- chyfanswm unrhyw log cronedig ar y dyfarniad ac, os yw'n briodol, y gyfradd ddyddiol.

Darllenwch y nodiadau ar y naill ochr a'r llall i'r ffurflen.

Mae gweithdrefn yr Uchel Lys yn wahanol i'r Llys Sirol a'r Llys Teulu ac yn gallu bod yn gymhleth ac yn fwy costus. Mae'n bosibl yr hoffech geisio am gyngor gan gyfreithiwr, canolfan gyfraith neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth cyn dechrau'r broses hon. Mae rhai canolfannau gwrandawiadau Llys Sirol hefyd yn gofrestrfeydd dosbarth i'r Uchel Lys. Gall y staff yno neu yn yr Uchel Lys yn Llundain ddweud rhagor wrthyhych am Orfodaeth Uchel Lys

Cyn i chi benderfynu sut i fwrw ymlaen, mae angen i chi ystyried a ydych chi'n debygol o gael yr arian sy'n ddyledus i chi a ffi'r llys gan y diffynnydd. Cofiwch na all unrhyw lys warantu y cewch eich arian yn ôl.

Beth fydd ei angen arnaf i godi gwarant yn y Llys Sirol neu'r Llys Teulu?

Bydd arnoch angen ffurflen N323 (cais i godi gwarant reolaeth). Gallwch gael copi o'r ffurflen hon ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk. Cewch wybodaeth mewn perthynas â sut i lenwi'r ffurflen hon ar dudalen 8.

Y swm lleiaf y gallwch ofyn i'r asiant gorfodi ei gasglu yw:

- un rhandaliad misol;
- pedwar rhandaliad wythnosol; neu
- £50;

pa un bynnag yw'r swm uchaf.

Os oeddech chi wedi cychwyn eich hawliad Llys Sirol drwy ddefnyddio Money Claim Online, gallwch gyflwyno cais am warant reolaeth ar-lein. Mewngofnodwch ar www.moneyclaim.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth.

Faint fydd hyn yn ei gostio?

Mae gan daflen EX50 Ffioedd y Llys Sifil a'r Llys Teulu wybodaeth ynghylch ffioedd, ac mae ar gael ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk. Bydd y llys yn ychwanegu'r ffi i'r cyfanswm sydd eisoes yn ddyledus gan y dyledwr. **Ond ni all y llys dalu'r ffi yn ôl os na fydd y warant yn llwyddo.**

Cofiwch, os na allwch chi fforddio'r ffi, efallai na fydd yn rhaid i chi dalu'r ffi lawn. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn llyfryn 'EX160A – Sut i wneud cais am gymorth gyda ffioedd' sydd ar gael ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk.

Sut alla i dalu'r ffi?

Gallwch dalu'r ffi gyda siec neu archeb bost. Gwnewch eich siec yn daladwy i 'Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM'.

Os ydych chi'n defnyddio Money Claim On-line i gychwyn eich cais am warant reolaeth, gofynnir i chi dalu'r ffi gyda'ch cerdyn credyd neu ddebyd.

Beth ddylwn i ei wneud â'r ffurflen?

Os byddwch eisiau cadarnhad bod y warant wedi ei chodi, a gwybod rhif y warant, dylech hefyd anfon amlen barod gyda stamp at y llys.

Os bydd y diffynnydd yn anfon unrhyw daliadau atoch ar ôl i chi anfon y ffurflen i'r llys, mae'n rhaid i chi ddweud wrth y llys ar unwaith.

Beth mae'r llys yn ei wneud?

Bydd y warant yn cael ei gweithredu gan yr asiant gorfodi sy'n cyflenwi cyfeiriad y dyledwr. Cewch wybod os yw hwn yn llys gwahanol i'r llys lle cyflwynwyd (gwnaethpwyd) y dyfarniad ynddo.

Bydd yr asiant gorfodi fel rheol yn anfon llythyr at y dyledwr yn dweud bod gwarant wedi ei chodi a bod yn rhaid iddo/iddi dalu o fewn saith niwrnod.

Os bydd y diffynnydd yn talu, bydd y llys yn anfon yr arian atoch. Gallai hyn gymryd hyd at 15 niwrnod os ydy'r dyledwr wedi talu drwy siec (i sicrhau bod y siec wedi'i chlirio).

Os nad yw'r dyledwr yn talu o fewn saith niwrnod, bydd yr asiant gorfodi yn galw yn y cyfeiriad a roddwyd gennych. Bydd yr asiant gorfodi'n mynd i gartref y dyledwr o fewn 15 niwrnod gwaith o ddyddiad codi'r warant. Bydd yr asiant gorfodi yn ceisio canfod nwyddau y gellid eu gwerthu mewn arwerthiant neu gasglu taliad i osgoi gwerthu nwyddau.

Os rhoddwch fwy nag un cyfeiriad, bydd yr asiant gorfodi yn ymweld â phob cyfeiriad yn ei dro.

Os oes gan y dyledwr nwyddau y gellir eu gwerthu, bydd yr asiant gorfodi'n tynnu costau cymryd, storio a gwerthu'r nwyddau o'r swm a godant. Bydd y llys yn anfon y gweddill atoch ar ôl gwneud hyn.

Os na fydd y swm hwn yn ad-dalu'r swm sy'n ddyledus i chi, bydd yr asiant gorfodi yn ymweld â'r dyledwr i weld a oes unrhyw nwyddau eraill y gellid eu gwerthu. Os nad oes, ni fydd yr asiant gorfodi yn gallu gweithredu ymhellach ar y warant.

A gaiff yr asiant gorfodi dorri i mewn i eiddo'r dyledwr?

Ni all asiant gorfodi fynd i mewn i dŷ'r dyledwr oni bai eu bod yn cael eu gadael i mewn gan y sawl sydd yno. Os nad oes neb yno, yna gall yr asiant gorfodi fynd i mewn os nad yw'r drws wedi ei gloi. Mae'n bosib y gall asiant gorfodi dorri i mewn i adeiladau busnes os nad oes lleoedd byw yn gysylltiedig â nhw a'u bod yn credu bod nwyddau'r dyledwr y tu mewn. Gallant fynd i mewn hefyd os ydy'r asiant gorfodi wedi cael caniatâd i fynd i mewn ryw dro ynghynt a'i fod yn mynd yn ôl i dŷ'r diffynnydd i gasglu nwyddau i'w gwerthu.

Pa nwyddau all yr asiant gorfodi eu cymryd?

Ni all y asiant gorfodi gymryd nwyddau oni bai eu bod yn perthyn i'r dyledwr neu ei fod yn berchen arnynt ar y cyd. Er enghraifft, ni all yr asiant gorfodi gymryd nwyddau sydd wedi eu profi eu bod yn perthyn i bartner y dyledwr yn unig.

Mae'n rhaid i unrhyw nwyddau y mae'r asiant gorfodi yn eu cymryd fod yn debygol o godi arian mewn arwerthiant. Ni fydd asiant gorfodi yn cymryd nwyddau os byddant yn credu

na fyddant yn codi digon i dalu rhywfaint tuag at y warant ar ôl talu costau eu cymryd a'u gwerthu mewn arwerthiant.

Ni all asiant gorfodi gymryd:

- eitemau y mae'r dyledwr eu hangen ar gyfer ei waith neu ei fusnes, fel offer crefftwr neu lyfrau;
- eitemau sylfaenol mewn cartref y mae'r dyledwr a'i deulu eu hangen fel dillad a dillad gwely;
- eitemau sydd wedi eu prydlesu, eu rhentu neu sydd ar gytundebau hurbwrcas; neu
- nwyddau sydd eisoes wedi eu meddiannu gan asiant gorfodi yn gweithredu dan warant arall.

Cofiwch, ni fydd yr asiant gorfodi fel rheol yn cymryd eitemau fel dodrefn ail-law neu eitemau trydanol os nad ydynt yn debygol o godi fawr o arian mewn arwerthiant.

Hefyd, ni all yr asiant gorfodi gymryd:

- ceir sy'n cael eu hurbrynu; neu
- gyfarpar nad yw'n perthyn i fusnes.

(Er enghraifft, gall dodrefn swyddfa, peiriannau a moduron fod wedi eu prydlesu.)

Mae'n bosib na fydd dim yn perthyn i gwmni yn ei swyddfa gofrestredig. Os gallwch, rhowch gyfeiriad lle mae'r cwmni yn gweithredu ei fusnes mewn gwirionedd.

All y dyledwr wneud unrhyw beth i atal y warant?

Gall, mae'n bosib i'r dyledwr dalu ffi a gofyn i'r warant gael ei gohirio (stopio).

Bydd y llys yn anfon copi o gais y dyledwr i ohirio'r warant i chi a ffurflen N246A (eich ateb i gais y dyledwr i ohirio'r warant). ateb i gais y diffynnydd i ohirio'r warant).

Mae Ffurflen N246A yn dweud wrthy ch beth i'w wneud os:

- ydych yn cytuno i'r warant gael ei gohirio ac yn derbyn cynnig y dyledwr i dalu;
- ydych yn cytuno i'r gohiriad ond eich bod yn credu y gallai'r dyledwr dalu mwy nag y mae ef neu hi wedi ei gynnig; neu
- nad ydych yn cytuno i'r warant gael ei gohirio.

Os ydych yn cytuno i ohirio ond yn anghytuno â chynnig y dyledwr, bydd swyddog o'r llys yn edrych ar yr wybodaeth a roddwyd ar gais y dyledwr ac yn penderfynu faint all y dyledwr fforddio ei dalu. Bydd y llys yn anfon gorchymyn i'r diffynnydd yn dweud wrtho/wrthi faint i'w dalu a phryd. Bydd copi yn cael ei anfon atoch.

Os nad ydych yn cytuno i ohirio'r warant, bydd apwyntiad yn cael ei drefnu a byddwch chi a'r dyledwr yn cael gwybod pryd i ddod i'r llys. Gallwch ysgrifennu i'r llys yn dweud pam eich bod yn gwrthwynebu. Ond, os na fyddwch yn mynd i'r apwyntiad, mae'n bosib y bydd y barnwr rhanbarth yn gwneud gorchymyn beth bynnag.

A oes raid i mi dderbyn penderfyniad swyddog y llys?

Nac oes. Gallwch ofyn i farnwr rhanbarth benderfynu beth fyddai'n gyfradd deg i'r dyledwr ei thalu.

I wneud hynny, bydd angen i chi ysgrifennu i'r llys yn dweud pam eich bod yn gwrthwynebu penderfyniad swyddog y llys gan nodi eich rhesymau.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen neu eich llythyr i'r llys o **fewn 16 diwrnod** o ddyddiad y marc post ar yr amlen y daeth y gorchymyn ynddi. Bydd apwyntiad yn cael ei drefnu a byddwch chi a'r dyledwr yn cael gwybod pryd i ddod i'r llys. Ni chodir unrhyw ffi am yr apwyntiad hwn.

Os nad ewch chi i'r apwyntiad hwn, gall y barnwr rhanbarth wneud gorchymyn beth bynnag.

Os caiff y warant ei gohirio ond nad ydy'r dyledwr yn talu fel y dywedodd ef neu hi (neu yn ôl y gorchymyn), gallwch ddefnyddio ffurflen N445 (cais am ail-godi gwarant) i ofyn i'r llys godi'r warant eto. Mae hyn yn cael ei alw'n 'ail-godi'r warant'. Gallwch gael ffurflen N445 ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk. Ni chodir unrhyw ffi am ail-godi'r warant a oedd wedi'i gohirio.

Beth os nad yw'r asiant gorfodi yn casglu unrhyw arian nac yn cymryd nwyddau?

Bydd y llys yn dweud wrthych pam na chasglodd yr asiant gorfodi unrhyw arian. Os nad ydych wedi clywed dim fis ar ôl i chi godi'r warant, dylech gysylltu â'r llys.

Mae gwarant yn aflwyddiannus fel rheol oherwydd:

- nad yw'r dyledwr yn y cyfeiriad a roddwyd gennych; neu
- nad yw nwyddau'r dyledwr yn werth digon i dalu unrhyw beth tuag at y swm sy'n ddyledus i chi a chostau eu cymryd a'u gwerthu mewn arwerthiant.

Os ydych yn siŵr bod y dyledwr yn byw yn y cyfeiriad a roddwyd gennych neu eich bod wedi dod o hyd i gyfeiriad arall, gallwch ddefnyddio ffurflen N445 i ofyn i'r llys ail-godi'r warant. Ond bydd rhaid i chi dalu ffi os ydych yn ail-godi gan ddefnyddio cyfeiriad newydd i'r dyledwr.

Os ydy'r warant yn cael ei hanfon i'r un cyfeiriad, dylech roi disgrifiad o'r dyledwr os medrwch. Mae'n rhaid i chi hefyd roi'r rheswm pam eich bod yn credu bod y dyledwr yn dal i fod yno.

Os ydych yn credu bod y dyledwr yn berchen ar rywbeth a allai fod yn werth ei werthu, gallwch ddefnyddio ffurflen N445 i ofyn i'r llys ail-godi'r warant. Rhowch fanylion yr eitem neu'r eitemau dan sylw.

Cofiwch, ni all yr asiant gorfodi gymryd nwyddau nad ydyn nhw'n perthyn i'r dyledwr. Hefyd, chi sy'n gyfrifol am gyflwyno gwybodaeth newydd. Ni all y llys olrhain y dyledwr ar eich rhan.

Am faint mae'r warant yn para?

Mae'r warant yn para am **flwyddyn**.

Os nad ydy'r warant wedi ei thalu neu os nad ydy'r asiant gorfodi wedi gwneud adroddiad terfynol o fewn yr amser hwnnw, nid yw bellach yn ddilys. Gallwch ofyn i'r llys i 'ymestyn cyfnod y warant'. Bydd yn rhaid i chi dalu ffi am ofyn i'r llys wneud hynny. Dylech geisio gwneud hynny cyn i'r flwyddyn ddod i ben. Fel arall bydd rhaid i chi roi rhesymau pam na wnaethoch hyn yn gynt.

Os nad ydy'r llys yn cytuno, a'ch bod chi'n dal i fod eisiau defnyddio'r dull hwn o orfodi, bydd yn rhaid i chi ofyn am warant newydd a thalu ffi arall.

Gaf i siarad â'r llys ynglŷn â'm gwarant?

Gallwch. Os ydy'r warant wedi cael ei hanfon i lys lleol y dyledwr, cysylltwch â'r staff yn y swyddfa honno. Mae gwybodaeth am y llys ar gael ar-lein yn courttribunalfinder.service.gov.uk

Cyn cysylltu â'r llys, dylech gael y manylion canlynol wrth law:

- enw a chyfeiriad y dyledwr;
- rhif y warant (os ydych yn ei wybod); a
- rhif yr hawliad.

Cofiwch, dim ond syniad cyffredinol o beth sy'n debygol o ddigwydd a gewch chi yn y daflen hon. Nid yw'n egluro popeth ynglŷn â rheolau a threfniadau'r llys. Efallai y gallwch gael cyngor cyfreithiol am ddim gan ganolfan gyfraith. Efallai hefyd y bydd Canolfan Cyngor ar Bopeth neu ganolfan cyngor i ddefnyddwyr yn gallu'ch helpu.

Enghraifft o sut i lenwi'r ffurflen gais am warant

Defnyddiwrch inc du a LLYTHRENNAU BRAS

Rhowch eich enw llawn a'ch cyfeiriad

Rhowch y cyfeiriad yr ydych chi eisiau i'r beili ymweld ag ef. Nid oes yn rhaid i hwn fod yr un cyfeiriad ag a roddwyd gennych ar y ffurflen hawlio.

Ceisiwch roi cymaint o wybodaeth â phosibl

Rhowch gyfanswm yr arian sy'n dal i fod yn ddyledus i chi, gan gynnwys y ffioedd a dalwyd ar gyfer y ffurflen hawlio ac unrhyw fath arall o orfodaeth.

Peidiwch â chynnwys y ffi ar gyfer y cais hwn.

Gallwch ofyn i'r beili gasglu:

- y cyfanswm sy'n ddyledus; neu
- ran o'r swm sy'n ddyledus;
- un rhandal misol;
- pedwar rhandal wythnosol; neu
- £50

pa un bynnag yw'r swm uchaf.

Ychwanegwch y ffi ar gyfer y warant at swm y warant (y ffigur yn B)

Rhaid i chi nodi rhif yr hawliad er mwyn i'r llys allu dod o hyd i'ch ffeil. Ni fydd y llys yn gallu delio â'ch cais hebdo.

Rhaid i chi lofnodi'r rhan hon o'r ffurflen er mwyn dweud nad yw'r diffynnydd wedi talu fel y dywedwyd wrtho neu wrthi am wneud.

Ysgrifennwch unrhyw beth rydych yn ei wybod am y diffynnydd a allai helpu'r beili. Er enghraifft, manylion unrhyw nwyddau y gwyddoch chi mai'r diffynnydd sydd berchen arnynt, neu gyfeiriad busnes gwahanol.

Os ydych chi'n meddwl y gallai fod yn anodd i'r beili weithredu'r warant, dylech nodi hynny yma a nodi pam. Gallai fod yn ddefnyddiol i'r beili petaech yn gallu disgrifio'r diffynnydd neu roi'r amseroedd yr ydych yn credu y bydd ef neu hi gartref.

Cais am Warant Reolaeth

Request for Warrant of Control

In the

Chain Number: []
 Fee Account no. []
 Warrant no. []
 Court code: []

1. Creditor's name and address

2. Name and address of service and payment (if different from above)

3. Debtor's name and address

12525 Cais am warant reolaeth (25.15) © Inheritance, Crown 2014

Llofnodwyd (Signed)
 I certify that the whole or part of any amount claimed has been paid and the balance now due is as shown

Dyddieddi (Dated)
 4. Warrant details

(A) Balance due at date of this request: £50.00
 (B) Amount for which warrant to issue: £50.00

Warrant details

Legal representative's name: []
 Land Registry no: []
TOTAL £50.00

IMPORTANT
 You must inform the court immediately of any change of details after you have sent this request to the court.
 You should provide a contact number so that the bailiff can speak to you if they need to.

MAE MRS STEVENS A'DREF I'W PRYNTIAWYN GWINERMAE I'W BERCHEN FORD
ESGORT GLAS